

# Diwygio'r Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol mewn Deddfwriaeth Bwyd Domestig Benodol yng Nghymru

**Dyddiad lansio: 2 Medi 2021**

**Ymateb erbyn: 28 Hydref 2021**

## I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru sy'n mewforio, allforio, gwerthu a gweithgynhyrchu bara a blawd, jam a chynhyrchion tebyg, brasterau taenadwy (*spreadable*) a chynhyrchion sy'n cynnwys cig, ac awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth hon. Bydd yr ymgynghoriad o ddiddordeb i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid ehangach hefyd.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau technegol arfaethedig i ddeddfwriaeth bwyd domestig sy'n berthnasol yng Nghymru, sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 8 wythnos, ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn credu y bydd hynny'n rhoi digon o amser ar gyfer adborth, gan fod y cynigion yn cael effaith isel ar y diwydiant ac ar awdurdodau lleol. Mae deddfwriaeth ar hyn eisoes yn cael ei gorfodi yn Lloegr ac mae Safonau Bwyd yr Alban yn paratoi at ymgynghori ar yr un cynigion. Byddai ymgynghoriad 8 wythnos yn galluogi'r ddeddfwriaeth arfaethedig i ddod i rym yng Nghymru yn y flwyddyn galendr hon, gan ddarparu cysondeb a chwarae teg i fusnesau sy'n masnachu ledled Prydain Fawr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r cynnig i gyflwyno Offeryn Statudol (OS) a fydd yn dileu neu'n diwygio'r cymalau cydnabyddiaeth gilyddol (gweler yr adran gyflwyno isod) yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- [Rheoliadau Bara a Blawd 1998, Rhif 141, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg \(Cymru\) 2018, Rhif 274, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati. \(Cymru\) 2014, Rhif 3087, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Brasterau Taenadwy \(Safonau Marchnata\), Llaeth a Chynhyrchion Llaeth \(Diogelu Dynodiadau\) \(Cymru\) 2008, Rhif 1341, Rheoliad 3](#)

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ymwneud â'r cynnig i ddarparu cymalau eithrio yn Rheoliadau Bara a Blawd 1998, a fydd yn caniatáu gwneud bara a blawd heb ei gyfnerthu (*unfortified*) yng Nghymru a naill ai eu hallforio i drydydd gwledydd neu eu defnyddio i wneud bwydydd sy'n cael eu hallforio i drydydd gwledydd. Yn ogystal, bydd y diwygiadau arfaethedig yn caniatáu mewnfario blawd heb ei gyfnerthu i Gymru, ar yr amod ei fod i'w ddefnyddio fel cynhwysyn mewn cynhyrchion sy'n cael eu hallforio i drydedd wlad.

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y cynigion i gael gwared ar y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018; Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati. (Cymru) 2014 a Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008, ac i ddiwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998, fel y bo'n berthnasol i Gymru er mwyn darparu cymalau eithrio ar gyfer blawd heb ei gyfnerthu. Byddem yn croesawu gwybodaeth ychwanegol am fasnach berthnasol ac effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig ar gyfer y sectorau hyn.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn **trwy e-bost yn unig**, at:

E-bost: [Food.Policy.Wales@food.gov.uk](mailto:Food.Policy.Wales@food.gov.uk)

Steve Adie

Tîm Polisi Rheoleiddio

Yr ASB yng Nghymru

## Manylion yr ymgynghoriad

1. Pwrpas y Rheoliadau arfaethedig yw diwygio neu ddileu'r cymalau cydnabyddiaeth gilyddol yn Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018; Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati, (Cymru) 2014 a Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata), Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiad) (Cymru) 2008 ac i ddarparu cymalau eithrio o fewn Rheoliadau Bara a Blawd 1998 a fydd yn caniatáu gwneud blawd heb ei gyfnerthu yng Nghymru a naill ai ei allforio i drydydd gwledydd neu ei ddefnyddio i wneud bwydydd sy'n cael eu hallforio i drydydd gwledydd. Yn ogystal, er mwyn caniatáu mewnfario blawd heb ei gyfnerthu i Gymru ar yr amod ei fod i'w ddefnyddio fel cynhwysyn mewn cynhyrchion sy'n cael eu hallforio i drydedd wlad.

## Cyflwyniad

2. Fe wnaeth y DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020, a daeth y Cyfnod Gweithredu i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Hyd at hynny roedd y DU wedi parhau i weithredu yn unol â rheolau perthnasol yr UE. Mae'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn nodi na all Aelod-wladwriaethau gyflwyno rhwystrau rheoleiddiol i symud nwyddau o'u gwirfodd, oni bai eu y gellir eu cyfiawnhau ar sail benodol fel moesoldeb cyhoeddus neu iechyd a diogelwch y cyhoedd.
3. Roedd yr egwyddor gydnabyddiaeth gilyddol hon yn sicrhau mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau nad oeddent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth cysoni'r UE, neu nwyddau a oedd ond yn rhannol ddarostyngedig iddi. Pan fyddai Aelod-wladwriaeth yn llunio rheolau cenedlaethol mewn meysydd heb eu cysoni, neu feysydd wedi'u cysoni'n rhannol, roedd yr egwyddor hon yn gwarantu y gellid gwerthu nwyddau o Aelod-wladwriaethau eraill sy'n cydymffurfio â chyfraith yr UE, ond nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn â'r rheolau cenedlaethol hyn yn gyfreithiol, ar eu marchnad (oni bai bod un o'r eithriadau a amlinellir uchod yn berthnasol). Felly, gallai unrhyw nwydd a werthir yn gyfreithlon mewn un wlad yn yr UE gael ei werthu mewn gwlad arall.
4. Estynnwyd y trefniant hwn ymhellach i gynhyrchion perthnasol o wledydd yn Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth hon, mae

nifer o'n rheoliadau domestig ar hyn o bryd yn cynnwys cymalau sydd wedi caniatáu i gynhyrchion wedi'u mewnfario o aelod-wledydd yr AEE a Gweriniaeth Twrci (yn ddibynol ar y rheoliadau) gael eu gwerthu yn y DU os cânt eu gwerthu yn gyfreithiol yn y gwledydd hynny yn y AEE/Gweriniaeth Twrci, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bodloni safonau yn y DU.

5. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn rhoi barn rhanddeiliaid i ni cyn gweithredu'r polisi hwn.
6. Ystyrir bod y newidiadau dan sylw yn hanfodol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) eisoes [wedi gwneud yr un newidiadau yn Lloegr](#), mae'r Alban yn paratoi at ymgynghori ar y newidiadau ac nid yw Gogledd Iwerddon yn gallu bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, oherwydd telerau Protocol Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, bydd Gogledd Iwerddon yn ymgynghori ar y cynnig i ddarparu eithriadau yn Rheoliadau Bara a Blawd 1998.
7. Roedd cymalau cydnabyddiaeth gilyddol o fewn y rheoliadau hyn yn caniatáu, tra oedd y DU yn aelod o'r UE, i Aelod-wladwriaethau'r UE, gwledydd Ardal Economaidd Ewrop (AEE) (ac yn achos Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig a Jam a Chynhyrchion Tebyg – Gweriniaeth Twrci ) allforio bwyd i'r DU nad oedd yn bodloni deddfwriaeth ddomestig y DU, ar yr amod bod y cynhyrchion yn cael eu gwerthu yn gyfreithiol yn y wlad yr oeddent wedi tarddu ohoni. Yn yr un modd, gallai'r DU allforio bwydydd i'r gwledydd hynny nad oeddent yn bodloni eu deddfwriaeth ddomestig, ar yr amod eu bod yn gyfreithiol yn y DU. Mae ymadael â'r UE wedi dod â'r trefniadau hyn i ben.
8. Yn wreiddiol, roedd egwyddorion cyffredinol cydnabyddiaeth gilyddol wedi'u cynnwys yn Erthyglau 34-36 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE. Ers hynny, mae'r Adran Busnes, Ynni, a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wedi diddymu'r Erthyglau hyn ar draws Prydain Fawr trwy Reoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol 2020 (Ymadael â'r UE), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021.
9. Er gwaethaf diwygio'r Cytuniad cyffredinol ar Weithrediad yr UE, mae dal angen diwygio'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynigion hyn gan ei bod yn dal i ganiatáu i egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol gael eu cymhwyso.

10. Bwriad y cynigion a ddisgrifir uchod yw sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Gwlad a Ffefrir Fwyaf Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a byddant yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

## Prif gynigion

Dyma'r cynigion sy'n cael eu hystyried:

11. Dileu'r cymal cydnabyddiaeth gilyddol yn Rheoliad 3(2) Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018, a oedd wedi datgymhwyso'r Rheoliadau ar gyfer jam a chynhyrchion tebyg a ddaeth i mewn i Gymru o Wladwriaeth yn yr AEE, Aelod-wladwriaeth yr UE neu Weriniaeth Twrci, lle cawsant eu marchnata'n gyfreithlon. Mae Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018 yn gweithredu safonau cyfansoddiad Ewropeaidd, ond maent hefyd yn cynnwys safonau cenedlaethol ar gyfer ceuled (*curds*) ffrwythau a briwffrwyth (*minced meat*) (y math a ddefnyddir yn draddodiadol mewn mins peis dros y Nadolig). Mae rheoliadau tebyg ar waith yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
12. Dileu'r cymal cydnabyddiaeth gilyddol yn Rheoliad 3(3) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati (Cymru) 2014, a oedd wedi datgymhwyso'r Rheoliadau ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys cig ac ati, a ddaeth i mewn i Gymru o Wladwriaeth yn yr AEE, Aelod-wladwriaeth o'r UE neu o Weriniaeth Twrci, lle cawsant eu marchnata'n gyfreithlon. Mae Rheoliadau'r Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati (Cymru) 2014 (PMR) yn gosod y lefel isaf o gynnwys cig a ganiateir ar gyfer nifer o gynhyrchion cyffredin sy'n cynnwys cig, fel selsig, byrgyrs a phasteiod cig. Maent hefyd yn gwahardd rhai rhannau o'r carcass mamalaidd mewn cynhyrchion y mae angen eu coginio ymhellach ar ôl eu gwerthu. Mae rheoliadau tebyg ar waith yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
13. Dileu'r cymal cydnabyddiaeth gilyddol yn Rheoliad 3, y Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata), Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008, a oedd yn datgymhwyso'r Rheoliadau ar gyfer brasterau taenadwy a ddaeth i mewn i Gymru o Wladwriaeth yn yr AEE neu o ran arall o'r DU, pe bai wedi dod yno o Wladwriaeth yn yr AEE, ac wedi'i labelu'n addas i nodi natur y braster taenadwy. Yn ogystal, roedd Rheoliad 3

wedi datgymhwyso'r Rheoliadau ar gyfer marjarîn a ddaeth i Gymru o Wladwriaeth yn yr AEE, lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon, a chynhyrchion o'r fath o Aelod-wladwriaeth yr UE (ac eithrio'r DU), lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithlon. Yn olaf, roedd y Rheoliadau wedi datgymhwyso cynhyrchion o'r fath o ran arall o'r DU, lle cawsant eu cynhyrchu a'u gwerthu yn gyfreithlon neu lle'r oeddent mewn cylchrediad rhydd ac yn cael gwerthu'n gyfreithlon, ac a gafodd eu labelu'n addas i nodi natur y marjarîn. Mae'r Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) yn gorfodi safonau marchnata'r UE a gynhwysir yn Rheoliad 1308/2013 yr UE ynghylch cynhyrchion fel taeniadau llaeth, menyn a mararîn. (ynghyd â rheoliadau sy'n ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth nad ydynt yn berthnasol yma).

14. Dileu'r cymal cydnabyddiaeth gilyddol yn Rheoliad 3(2) Rheoliadau Bara a Blawd 1998, a oedd wedi datgymhwyso'r Rheoliadau ar gyfer bara neu flawd, a ddaeth i Brydain Fawr o wladwriaeth yn yr AEE neu Aelod-wladwriaeth yr UE, lle cafodd ei gynhyrchu neu lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac wedi'i werthu'n gyfreithlon. Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998 (BFR) yn ei gwneud yn ofynnol i flawd gwenith gwyn a brown wedi'i felino sy'n cael ei werthu a'i fewnforio i Brydain Fawr gael ei gyfnerthu â chalsiwm (ar sail iechyd), haearn, thiamin a niacin (at ddibenion adfer yn bennaf ) ac maent yn gosod lefelau gofynnol i fodloni'r gofynion hyn. (Mae rheoliadau tebyg ar waith yng Ngogledd Iwerddon.) Hefyd, yn y DU, nid yw'n bosibl gwerthu blawd nad yw'n cydymffurfio â'r BFR i fusnesau eraill (neu i ddefnyddwyr) yn y DU, er enghraifft, i'w ddefnyddio wrth weithgynhyrchu bwyd. Yr unig eithriad arall i'r rheolau yw ar gyfer blawd sy'n cael ei fewnforio o Aelod-wladwriaeth yr UE (a bara wedi'i fewnforio o'r AEE) gan fod y rheoliadau'n cynnwys cymal cydnabod sy'n caniatáu mewnforio a gwerthu bara/blawd sydd heb eu cyfnerthu o'r AEE/UE i mewn i'r DU.

15. Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998, trwy amnewid rheoliadau cyfredol 3(2) a 3(3) fel y maent yn berthnasol i Gymru, gyda:

3(2), Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys at:

- a) Unrhyw flawd neu fara a gynhyrchir yng Nghymru sy'n cael ei allforio i drydedd wlad.
- b) Unrhyw flawd a ddefnyddir yng Nghymru i gynhyrchu bwyd sy'n cael ei allforio i drydedd wlad, ac
- c) Unrhyw flawd sy'n dod i mewn i Gymru o drydedd wlad, lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon, os yw'r blawd i'w ddefnyddio yng Nghymru i gynhyrchu bwyd sydd wedyn yn cael ei allforio i drydedd wlad.

Byddai'r dewis pwrpasol hwn yn cynnal polisïau iechyd cyfredol a thrwy hynny yn diogelu iechyd poblogaeth y DU. Byddai angen i'r holl gynhyrchion sy'n cynnwys blawd a werthir yng Nghymru gael eu gwneud o flawd wedi'i gyfnerthu. Fodd bynnag, byddai'r dewis hwn yn caniatáu i weithgynhyrchwyr yng Nghymru gynhyrchu a gwerthu blawd heb ei gyfnerthu ar yr amod ei fod yn cael ei allforio, a gwerthu a defnyddio blawd o'r fath i wneud cynhyrchion yn y DU ar yr amod eu bod yn cael eu hallforio.

## Y cynigion yn fanwl

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

16. Mae gennym ni sawl rheol genedlaethol ar gyfer safonau cyfansoddiad bwyd penodol yn y DU sy'n cynnwys cymalau eithrio penodol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "cymalau cydnabyddiaeth") er mwyn ei gwneud hi'n glir pa wledydd a oedd wedi'u heithrio rhag gorfod bodloni'r rheolau hyn. Roedd cydnabyddiaeth gilyddol yn caniatáu i bob Aelod-wladwriaeth gydnabod bod cynhyrchion ei gilydd yn addas ar gyfer marchnadoedd priodol oherwydd eu bod yn bodloni holl deddfwriaeth berthnasol yr UE a gysonwyd ac y cytunwyd arni fel safonau derbyniol. Sicrhaodd hyn y gallu i symud nwyddau yn rhydd ledled Marchnad Sengl yr UE.
17. Mae'n rhaid i gynhyrchion a fewnforir i'r DU o wledydd eraill, nad ydynt yn cael eu gwerthu yn gyfreithlon mewn aelod-wladwriaeth yn yr AEE, gydymffurfio â'n safonau.
18. Ar hyn o bryd mae cymalau cydnabyddiaeth wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth bwyd yng Nghymru yn:



- Rheoliadau Bara a Blawd 1998
- Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018, a
- Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati (Cymru) 2014

19. Mae'r rhain yn caniatáu i gynhyrchion o wledydd yr UE a'r AEE – a Gweriniaeth Twrci yn achos Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati a Jam a Chynhyrchion Tebyg – gael eu gwerthu yn gyfreithiol yng Nghymru hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r safonau cyfansoddiad a nodir yn y rheoliadau hyn.

20. Mae cymal cydnabyddiaeth hefyd wedi'i gynnwys yn:

- Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata), Rheoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008.

21. Mae hyn yn caniatáu i frasterau taenadwy o Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein gael eu gwerthu yn gyfreithiol yng Nghymru hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bodloni'r safonau marchnata domestig a nodir yn y rheoliadau hyn.

22. Mae rheoliadau tebyg tebyg ar waith yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

23. O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, roedd cynhyrchwyr bwyd y DU hefyd yn gallu, tan 31 o Rhagfyr 2020, farchnata cynhyrchion y DU yng ngwledydd yr UE a'r AEE hyd yn oed os nad oedd y cynhyrchion hynny, yn yr un modd, yn bodloni rheolau cenedlaethol perthnasol yn y gwledydd hynny. Lle gallai rheolau penodol yr UE fodoli yn y DU, rhaid i gynhyrchion wedi'u hallforio fodloni'r gofynion hynny, er enghraifft ar gyfer cyfnerthu blawd.

## **Y sefyllfa yn y dyfodol**

24. Mae'r DU wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac nid yw cynhyrchwyr y DU bellach yn gallu elwa ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn yr UE/AEE ers i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Rhaid i fusnesau sy'n dymuno parhau i allforio i'r UE/AEE wirio a oes gan y farchnad allforio unrhyw reolau cenedlaethol sy'n berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [gov.uk](http://gov.uk).

25. O ran ein marchnad ein hunain, nid ystyrir ei bod yn gyfreithiol briodol bellach cydnabod rheolau'r UE yn unochrog gan nad yw'r DU bellach yn aelod o farchnad sengl yr UE. Ar ben hynny, ni fydd y DU yn y dyfodol yn gallu caniatáu i aelod-wladwriaethau'r UE/AEE a Gweriniaeth Twrci gael mynediad ffafriol at y

farchnad ar gyfer mewnfôrion nad ydynt yn bodloni'r rheolau cenedlaethol gan y byddai mewn perygl o gael ei herio gan wledydd eraill Sefydliad Masnach y Byd (WTO) o dan [Reolau'r Gwledydd a Ffefrir](#).

26. Er y byddai ymestyn y cymalau cydnabod hyn i gwmpasu holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Sefydliad Masnach y Byd, byddai'r dewis arall hwn yn cyflwyno heriau ychwanegol. Byddai'n galluogi masnach rydd, ond gallai hefyd wahodd mewnfôrion cynhyrchion o ansawdd is i'r DU, gan greu cystadleuaeth annheg i gynhyrchwyr Cymru, a gallai, yn achos blawd, gael effaith negyddol ar iechyd y genedl trwy fod llai o gyfnerthu. Byddai'r dewis hwn yn anghydnaws â pholisi Llywodraeth y DU i gynnal y safonau bwyd uchel cyfredol, a byddai'n anfanteisiol i'r diwydiant domestig. Am y rhesymau hyn, nid ydym ni'n cynnig dilyn y dewis hwn ymhellach. Mae Defra wedi mabwysiadu'r un dull yn Lloegr ac mae'r Alban yn paratoi at ymgynghori ar yr un cynigion.
27. Felly, rydym ni'n cynnig dileu'r cymalau cydnabyddiaeth o'r rheoliadau a restrir uchod a mynnu bod mewnfôrion o'r UE/AEE a Gweriniaeth Twrci yn bodloni safonau Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai dileu'r cymalau cydnabyddiaeth yn Rheoliadau Bara a Blawd 1998 yn achosi i weithgynhyrchwyr yng Nghymru gollu'r holl fynediad at flawd heb ei gyfnerthu. Felly, rydym ni'n ystyried ymestyn yr amddiffyniad presennol i werthu blawd nad yw'n cydymffurfio sy'n cael ei allforio i gynnwys amddiffyniad newydd ar gyfer gwerthu blawd nad yw'n cydymffurfio i'w ddefnyddio i gynhyrchu cynhyrchion y bwriedir eu hallforio.
28. Ar hyn o bryd ni all melinwyr yng Nghymru werthu blawd heb ei gyfnerthu, ond mae galw am flawd heb ei gyfnerthu sy'n cael ei ddefnyddio mewn cynhyrchion sy'n cael eu hallforio. Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i flawd gwenith gwyn a brown wedi'i felino sy'n cael ei werthu a'i fewnforio i Brydain Fawr gael ei gyfnerthu â chalsiwm (ar sail iechyd), haearn, thiamin a niacin (at ddibenion adfer yn bennaf) ac maent yn gosod lefelau gofynnol i fodloni'r gofynion hyn. (Mae rheoliadau tebyg ar waith yng Ngogledd Iwerddon.) Hefyd, yn y DU, nid yw'n bosibl gwerthu blawd nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Bara a Blawd 1998 i fusnesau eraill (neu i ddefnyddwyr) yn y DU, er enghraifft, i'w ddefnyddio mewn gweithgynhyrchu bwyd.

## **Dewisiadau ar gyfer Bara a Blawd**

### **Dewis 1 – Gwneud dim**

29. Ni fydd melinwyr yng Nghymru yn gallu gwerthu blawd heb ei gyfnerthu, a bydd y dewis hwn yn parhau i atal melinwyr yng Nghymru rhag gwneud, gwerthu neu fewnforio blawd heb ei gyfnerthu, a thrwy hynny wrthod cyfleoedd busnes posibl iddynt. Bydd Aelod-wladwriaethau'r UE yn dal i gael allforio bara a blawd nad ydynt yn cydymffurfio i'r DU, gan fod y cymal yn y ddeddfwriaeth yn caniatáu hyn yn benodol, ond ni fydd busnesau yng Nghymru yn gallu allforio i Aelod-wladwriaethau'r UE o dan egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol oherwydd daeth hyn i ben pan ddaeth y cyfnod gweithredu, sy'n arwydd o ymadawiad terfynol â'r UE, i ben. Gan fod y DU bellach yn masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, mae risg y bydd aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd yn herio hyn o dan reolau'r Gwledydd a Ffefir Fwyaf, gan y byddem yn caniatáu telerau masnachu ffafriol i Aelod-wladwriaethau'r UE nad ydynt ar gael i aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd.

### **Dewis 2 – Ymestyn cydnabyddiaeth i holl aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd**

30. Er y gallai'r dewis hwn ddileu'r risg y byddai gwledydd Sefydliad Masnach y Byd yn herio, gallai waethygu'r sefyllfa i fusnesau yng Nghymru oherwydd gallai ganiatáu mewnforio mwy o gynhyrchion bara a blawd heb eu cyfnerthu i'r DU nad ydynt o bosib yn cydymffurfio â Rheoliadau Bara a Blawd 1998. Gallai hyn gynyddu'r gystadleuaeth y mae busnesau yn ei hwynebu yn fawr, a gallai'r diffyg cyfnerthu effeithio ar iechyd y cyhoedd o bosibl. Mae hefyd yn golygu bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn dal i allu allforio cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio i'r DU.

### **Dewis 3 – Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998**

31. Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 i gael gwared ar y cymal cydnabyddiaeth gilyddol, gan ddisodli cymal sy'n caniatáu cynhyrchu bara a blawd heb eu cyfnerthu yng Nghymru ar yr amod eu bod yn cael eu hallforio i drydedd wlad.

32. Yn ogystal, bydd yn caniatáu i unrhyw flawd gael ei fewnforio i Gymru o drydedd wlad, lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithlon i'w ddefnyddio yng Nghymru i gynhyrchu bwyd a fydd yn cael ei allforio i drydedd wlad.
33. Mae'r dewis hwn yn dileu'r risg y byddai gwledydd Sefydliad Masnach y Byd yn herio ac yn dileu'r ddarpariaeth sy'n dal i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau'r UE allforio cynnyrch nad yw'n cydymffurfio i'r DU, gan leihau'r gystadleuaeth y gallai busnesau Cymru ei hwynebu.
34. Yn olaf, mae'r dewis hwn yn rhoi cyfleoedd busnes i felinwyr wneud a gwerthu bara a blawd heb eu cyfnerthu ar yr amod eu bod yn cael eu hallforio, ac i fewnforio blawd i'w ddefnyddio mewn cynhyrchion sydd hefyd yn cael eu hallforio. Byddai busnes yn wynebu aflonyddwch os ydynt yn mewnforio blawd o'r UE neu'r AEE ar hyn o bryd, oherwydd unwaith y bydd y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol yn cael eu dileu, ni fyddent yn gallu mewnforio cynhyrchion o'r fath oni bai eu bod i'w defnyddio i wneud cynhyrchion sy'n cael eu hallforio i drydedd wlad.

## **Dewisiadau ar gyfer Jam, Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig a Brasterau Taenadwy**

### **Dewis 1 – Gwneud dim**

35. Mae peidio â chael gwared ar y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol yn golygu y gall Aelod-wladwriaethau'r UE barhau i allforio cynhyrchion i'r DU nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol y rheoliadau hyn. Nid yw busnesau yng Nghymru yn cael yr un cyfleoedd i allforio i Aelod-wladwriaethau'r UE yn unol ag egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol gan y peidiodd y rhain â bod yn berthnasol pan ddaeth y cyfnod gweithredu, sy'n arwydd o wahaniad terfynol o'r UE, i ben. Yn ogystal, mae'r dewis hwn yn cynyddu'r risg y gallai aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd ei herio o dan reolau'r Gwledydd a Ffefrir Fwyaf, yn yr ystyr bod telerau ffafriol ar gael i Aelod-wladwriaethau'r UE/AEE, nad ydynt ar gael i aelodau Sefydliad Masnach y Byd, sef y rheolau hynny rydym ni'n masnachu oddi tanynt ar hyn o bryd.

## **Dewis 2 – Ymestyn cydnabyddiaeth gilyddol i holl aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd**

36. Byddai'r dewis hwn yn dileu'r risg y gallai aelod-wledydd y WTO ei herio o dan reolau'r Gwledydd a Ffefrir Fwyaf, gan y byddai'r un rheolau yn berthnasol i holl Aelod-wladwriaethau'r UE a holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd, ond gallai gynyddu'r gystadleuaeth i fusnesau yn fawr. Gellid mewnfurio llawer mwy o gynhyrchion i'r DU nad ydynt yn bodloni gofynion cyfansoddiadol y rheoliadau hyn. Gallai arwain at ostwng safonau yng Nghymru.

## **Dewis 3 – Dileu'r cymalau cydnabyddiaeth gilyddol.**

37. Byddai'r dewis hwn yn dileu'r risg y gallai aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd yn herio o dan reolau Gwledydd a Ffefrir Fwyaf y WTO, gan y byddai'r un rheolau yn berthnasol i Aelod-wladwriaethau'r UE a holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd. Mae hefyd yn dileu'r darpariaethau sy'n dal i fodoli sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau'r UE allforio cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio i'r DU, ac felly'n lleihau'r gystadleuaeth bosibl i fusnesau Cymru.

38. Rhaid i fusnesau sy'n dymuno parhau i allforio i'r UE/AEE wirio a oes gan y farchnad allforio unrhyw reolau cenedlaethol sy'n berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [gov.uk](http://gov.uk).

39. Gall hyn arwain at ganlyniadau (*consequences*) i rai busnesau yn y DU a'r UE sydd ar hyn o bryd yn mewnfurio ac yn gwerthu cynhyrchion o'r fath i Gymru ac felly'n achosi rhywfaint o aflonyddwch i'r farchnad. Efallai y bydd angen i gynhyrchwyr neu fewnforwyr newid naill ai labelu neu fformiwleiddiad cynhyrchion er mwyn parhau i'w gwerthu ar farchnad Cymru. Felly rydym ni'n ystyried darparu cyfnod addasu a fyddai'n caniatáu i fusnesau baratoi ar gyfer y newidiadau hyn.

40. Mae'r posibilrwydd o wneud newidiadau ychwanegol i'r Rheoliadau Bara a Blawd wedi bod yn destun trafodaeth gyda'r diwydiant a gwledydd eraill y DU; fodd bynnag, nid yw'r newidiadau pellach posibl hynny wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud yn bennaf â gwneud addasiadau sy'n ofynnol mewn perthynas ag ymadawiad y DU o'r UE a diwedd y Cyfnod Pontio. Credwn fod angen ystyried y newidiadau eraill hynny yn fanylach, a byddant yn destun

adolygiad o dan y Fframwaith Cyffredin Safonau Cyfansoddiad a Labelu Bwyd yn ddiweddarach yn 2021.

## **Gweinyddiaethau Eraill**

41. Mae polisi bwyd yn fater datganoledig ond yn achos Rheoliadau Bara a Blawd 1998, crëwyd y rhain cyn datganoli ac felly maent yn berthnasol i Brydain Fawr gyfan. Mae gan bob gwlad gyfrifoldeb ar wahân, ac mae angen iddynt ddiwygio'r ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer eu gwledydd eu hunain. Rydym ni'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Llywodraeth Gogledd Iwerddon i ystyried ac alinio'r newidiadau angenrheidiol ledled y DU cyn belled ag y bo modd. Un o'r materion pwysig a amlygwyd yn flaenorol gan gynrychiolwyr y diwydiant, yn enwedig yng nghydestun diwygiadau i'r rheolau ar gyfer blawd, yw i'r un rheolau fod yn berthnasol ar draws y DU gyfan oherwydd bod masnach wedi'i hintegreiddio'n sylweddol ym marchnad fewnol y DU.

## **Effeithiau**

42. Amcangyfrifwyd ac aseswyd effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig ar randdeiliaid perthnasol gan gynnwys busnesau wrth baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

43. Mae'r ASB hefyd yn dymuno defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu tystiolaeth a byddem ni'n croesawu sylwadau ar effeithiau nad ydym efallai wedi'u hystyried neu farn amgen am y rhagdybiaethau a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn.

44. Os yw tystiolaeth ac ymatebion yn awgrymu y dylid gwneud newidiadau i'r rheoliadau, cynhelir asesiad effaith reoleiddiol.

## **Trosolwg o'r Effeithiau**

### **Masnach**

45. Byddai darparu'r eithriadau yn y Rheoliadau Bara a Blawd yn rhoi mynediad i weithgynhyrchwyr yng Nghymru at farchnadoedd newydd ac yn darparu buddion sy'n ymwneud â masnach. Ni fyddai unrhyw effaith ar fasnach ledled y DU, na gyda'r UE.

46. Ar gyfer Jam, Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig a Brasterau Taenadwy, byddai dileu'r cymalau cydnabyddiaeth gilyddol yn tynnu unrhyw gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol y rheoliadau hynny oddi ar y farchnad (ar ôl unrhyw gyfnod addasu posibl), a thrwy hynny gael gwared ar y gystadleuaeth o du'r cynhyrchion hynny y mae busnesau yn eu wynebu ar hyn o bryd.

### **Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau**

47. Bydd costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol, a bydd angen cynnwys y gofyniad hwn mewn arolygiadau. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cymryd tua 2 awr i bob rheolwr ym mhob awdurdod lleol. Disgwylir y bydd y gost arolygu ychwanegol yn fach iawn.

48. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod cynhyrchion y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt yn bodloni gofynion y rheoliadau priodol, ac yn achos blawd, yn fodlon, os nad yw'n cael ei gyfnerthu, ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud cynhyrchion a fydd yn cael eu hallforio yn unig.

49. Yn ogystal, gall fod yn anodd i awdurdodau lleol, yn achos blawd heb ei gyfnerthu, fod yn hyderus y bwriedir ei ddefnyddio mewn cynhyrchion a fydd yn cael eu hallforio, ac nad yw blawd heb ei gyfnerthu yn cael ei ychwanegu at flawd wedi'i gyfnerthu gan felly leihau buddion y cyfnerthu.

### **Busnesau**

50. Bydd gan fusnesau hefyd gostau ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd. Mae'r costau ymgyfarwyddo hyn yn cael eu mesur yn nhermau'r amser y byddent yn ei dreulio yn ymgyfarwyddo â'r newid rheoleiddiol. Oherwydd natur y newidiadau rheoleiddiol, rydym ni'n disgwyl i gostau ymgyfarwyddo fod yn isel.

51. Er bod potensial iddynt darfu rywfaint, gallai darparu eithriadau Rheoliadau Bara a Blawd 1998 gynnig buddion i gynhyrchwyr domestig.

## **Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori**

52. Rydym ni'n ymgynghori ar y cynigion hyn dros gyfnod o wyth wythnos gan ddechrau ar 23 Awst 2021 ac yn gorffen ar 15 Hydref 2021. Drwy gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, mae'r ASB yn dymuno bodloni ei gofyniad i ymgynghori o

dan Erthygl 9 Rheoliad yr UE 178/2002 a ddargedwir sy'n nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd ac yn nodi'r gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

53. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd yr ymatebion yn cael eu casglu a'u dadansoddi, a'u cyhoeddi wedyn ar [food.gov.uk](http://food.gov.uk).

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Eglurwch eich atebion cymaint ag y gallwch, a lle bo ar gael, dylech gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich barn.

## Cynigion Bara a Blawd

1. Pa un o'r opsiynau (1. Gwneud dim; 2. Ymestyn Cydnabyddiaeth Gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd neu 3. Dileu Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol) a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn sydd orau gennych chi?
2. Yn eich barn chi, beth fyddai effaith trefniant i ganiatáu i flawd (a blawd a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu cynhyrchion) a gynhyrchir yng Nghymru gael ei ddatfygnerthu os caiff ei allforio wedi hynny? (Nodwch effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac unrhyw gostau neu oblygiadau eraill rydych chi'n eu rhagweld)
3. Pa gostau, buddion neu oblygiadau eraill ydych chi'n eu rhagweld mewn perthynas â'r newidiadau cyffredinol hyn?

## Jam a Chynhyrchion Tebyg

4. Pa un o'r dewisiadau (1. Gwneud dim byd; 2. Ymestyn Cydnabyddiaeth Gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd neu 3. Dileu Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol) a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn sydd orau gennych chi?
5. Pa gostau, buddion neu oblygiadau eraill ydych chi'n eu rhagweld mewn perthynas â'r dewisiadau cynnig ar gyfer Jam a Chynhyrchion Tebyg?

## Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig

6. Pa un o'r dewisiadau (1. Gwneud dim byd; 2. Ymestyn Cydnabyddiaeth Gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd neu 3. Dileu Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol) a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn sydd orau gennych chi?



7. Pa gostau, buddion neu oblygiadau eraill ydych chi'n eu rhagweld mewn perthynas â'r dewisiadau cynnig ar gyfer Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig?

## Brasterau Taenadwy

8. Pa un o'r dewisiadau (1. Gwneud dim byd; 2. Ymestyn Cydnabyddiaeth Gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd neu 3. Dileu Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol) a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn sydd orau gennych chi?
9. Pa gostau, buddion neu oblygiadau eraill ydych chi'n eu rhagweld mewn perthynas â'r dewisiadau cynnig ar gyfer Brasterau Taenadwy?

## Cyfnodau Addasu

10. A ydych yn credu bod angen cyfnod addasu i baratoi at gael gwared ar y cymalau cydnabyddiaeth mewn perthynas â chynhyrchion sy'n cynnwys cig, jam a chynhyrchion tebyg, brasterau taenadwy a bara a blawd?
11. Os ydych yn teimlo bod cyfnod addasu yn angenrheidiol, a fyddai cyfnod addasu sy'n dod i ben ar 30 Medi 2022 (yn unol â chyfnod addasu ar gyfer gofynion labelu eraill) yn ddigonol?
12. Os nac ydych, beth fyddai cyfnod addasu priodol ar gyfer y newidiadau arfaethedig hyn?

## Gorfodi

13. A yw'r amcangyfrif amser o 2 awr i bob Rheolwr yn gywir at ddibenion ymgyfarwyddo â'r newidiadau arfaethedig hyn? Os nad ydyw, beth fyddai amser priodol i ymgyfarwyddo?
14. A ydych yn rhagweld unrhyw gynnydd yn yr amser y bydd yn ei gymryd i gynnal ymweliadau arolygu o ganlyniad i'r newidiadau hyn? Os felly, amcangyfrifwch sawl awr byddai hyn.
15. A ydych chi'n rhagweld unrhyw faterion gorfodi ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig hyn?

## Cyffredinol

16. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig hyn?

## Dogfennau perthnasol eraill

- [Rheoliadau Bara a Blawd 1998, Rhif 141, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg \(Cymru\) 2018, Rhif 274, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati \(Cymru\) 2014, Rhif 2097, Rheoliad 3](#)
- [Rheoliadau Brasterau Taenadwy \(Safonau Marchnata\), Llaeth a Chynhyrchion Llaeth \(Diogelu Dynodiadau\) \(Cymru\) 2008, Rhif 1341, Rheoliad 3](#)

## Ymatebion

Mae angen i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd 28 Hydref 2021. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

**A fyddech cystal ag anfon eich ymatebion at:** [Food.Policy.Wales@food.gov.uk](mailto:Food.Policy.Wales@food.gov.uk)

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Steve Adie

Tîm Polisi Rheoleiddio, yr ASB yng Nghymru

## **Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad**

### **Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych**

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system technoleg gwybodaeth, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

### **Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?**

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel y bo angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg sydd er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

## Beth byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn cael ei gadw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy gytundebau fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion diogelwch cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd hynny er budd y cyhoedd.

## Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at:

[informationmanagement@food.gov.uk](mailto:informationmanagement@food.gov.uk)

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).